

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona.
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Mawrth 23ain 2016
am 7.30 o'r gloch.

1. Presennol - Cyngorwyr Myrddin Roberts (Cadeirydd, MR), Geraint Parry (Clerc), Maldwyn Williams (MW), Dafydd Pritchard (DP), Rhian Hughes (RH), Carwyn Jones (CJ)
Aelodau cyhoedd - Wyn Jones (Swyddog Cyngor Sir) a Rob Evans (Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd)

2. Ymddiheuriadau - Cyng. Mark Williams, Alwena Roberts, Lewis Davies.

3. Datgan Ddiddordeb

RH ar drafodaeth Neuadd Llanddona

4. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17ddeg o Chwefror fel rhai cywir gan Cyng. M Williams, eilio gan Cyng. R Hughes.
Agorwyd y cyfarfod gyda phwynt 8.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 Cerrig ger Llain Gron - Lori bin wedi dechrau defnyddio'r lôn eto. Clerc yn disgwyl ymateb gan Adran Wastraff.

5.2 Baw Cŵn - MW wedi gosod yr arwyddion. Awgrymu bod angen mwy o arwyddion a biniau baw cŵn. Clerc i drafod yr achos gyda'r Heddlu.

5.3 Llwybr Tai Bach - derbyniwyd copi o'r ymateb gan E Evans gyda'i sylwadau i'r ymchwiliad, sy'n yn dod i ben 1/04/16. Derbyniwyd map o'r rhybudd a'r gorchymyn swyddogol llwybr rhif 64 gan y Cyngor Sir. Adran Cynllunio yn edrych i mewn i'r cwyn o blannu coed wrth ymyl y ffordd ayyb ger Cherry Tree Cottage.

5.4 Eisteddfod Genedlaethol Môn (01/16) - RH dim yn gallu cymryd rhan yn yr apêl oherwydd pwysa gwaith. Derbyniwyd gohebiaeth gan y Pwyllgor Apêl.

5.5 Cais Gwelfryn (12/15) - Clerc wedi cysylltu gydag ein cyfreithiwr, dim wedi derbyn unrhyw newyddion pellach.

5.6 Llwybr Arfordirol (2/16) - rydym nawr yn deall bod ffermwyr lleol yn fodlon ar cynllun yma.

6. Adroddiad gan y Cynghorydd

- CJ - wedi trefnu i gael gwared ar gerrig mawr yn ardd 22 Maes Gwyn
- CJ - Allt Coch, dilyn gwaith gan BT i osod cebl lawr yr allt, maent wedi tarfu'r draen dwr gwreiddiol. Cyngor Sir yn trafod y mater gyda BT.
- CJ - wedi cymryd rhan yn y gwaith gwirfoddoli ar Tir Comin Llanddona
- CJ - Sipsiwn a Theithwyr, penderfyniad ar y safleoedd yn cael ei ohirio oherwydd bod y Cyngor Sir yn adolygu'r adborth a dderbyniwyd a hefyd yr etholiad ar 5ed o Fai.
- CJ - diffyg gwybodaeth eto gan y Cyngor Sir ynghylch y penderfyniad gyda Carchar Biwmares.

7. Ceisiadau Cynllunio

Er Gwybodaeth

- 22C169C - cais am estyniad cefn ac addasiadau mewnol yn Cae Bryntirion, Llanddona - wedi ei caniatáu.

8. Fynwent Llaniestyn

Derbyniwyd cyflwyniad gan Rob Evans (GAT) drwy esbonio hanes yr Eglwys lle mae cerfiad o'r 14eg ganrif o St. Iestyn o fewn yr Eglwys. Trwy gloddio safle'r fynwent datgelodd 50 o feddau canoloesol cynnar ar fath o gerrig a ddefnyddir ar y pryd. Hefyd datgelodd costir marwdy sy'n dangos statws ond mae ei ystyr yn aneglur. Nid yw dyluniadau yma yn anghyffredin am y cyfnod, fel mae safleoedd eraill fel Llanbedrgoch a Llanbeblig wedi dangos.

WJ yn esbonio gweddill o'r gwaith i wneud ar y safle newydd lle y byddai lle i tua 90 o feddau. Gyda'r gwariant presennol wedi ei wneud ar y safle, bydd angen mwy o gyllid yn y dyfodol i ddatblygu'r safle yn gyflawn.

MR - er mwyn coffau'r safle, awgrymwyd byddai'r Cyngor Cymuned yn codi bwrdd dehongliad.

Diolchodd i'r ddau swyddog am ei gwaith ar y prosiect yma.

9. Tir Comin

9.1 Gwaith ar y tir Comin – sesiwn gwirfoddoli wedi cymryd lle ar 20/02 a 5/03.

9.2 DP – llwybr ger y maes chwarae wedi cael ei dorri

9.3 Ymwelodd SH y swyddog hawliau tramwy ac wedi marcio'r llwybrau troed ar y Rhos sydd angen i'w clirio, gyda hyn sy'n weddill o'r gyllideb.

9.4 Hen Ysgol (02/16) - nid ydym wedi derbyn unrhyw wybodaeth bellach gan y Cyngor Sir.

RH yn esbonio manylion y cynnig mae Pwyllgor y Neuadd wedi'i derbyn gan gyfreithiwr y Cyngor Sir. - *"ein bod yn dymuno gwerthu'r Ysgol yn ei chyfanrwydd sy'n cynnwys yr ardal fwyaf o dir o amgylch yr ysgol am sy'n ymgorffori'r cae chwarae am £125k neu heb y cae chwarae am £115k"*

10. Cyfrifon

Gwariant

- JD Roberts, gwaith awdit 2014/15 - £45.00
- Canolfan Hamdden Biwmares, rhodd 2015/16 - £500.00
- Un Llais, hyfforddiant - £17.50

Incwm

- Ad-daliad am gynnal llwybrau cyhoeddus - £1,374.06
- Ffi Morgan Evans am werthusiad Glyndŵr - £180.00
- Hawddfraint Glyndŵr - £1,200.00

11. Gohebiaeth

E-bost – E Evans, Llwybr Tai Bach

E-bost – SH, llwybrau Rhos Llanestyn

Llythyr – map a datganiad swyddogol llwybr troed Tai Bach

Llythyr – Adran Cynllunio, Y Gilfach

Llythyr – C Hughes, Plot Glyndŵr

12. UFA:

12.1 RH – sbwriel wedi cael ei dympio ger y sgip wrth yr Hen Ysgol.

12.2 MR - tyllau ar lôn ganol o Landdona i Langoed.

12.3 Grant Cynghrair Seiriol - oherwydd amodau grant, bydd cais Pwyllgor y Neuadd yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r Cyngor Cymuned lle fydd yn cael ei drosglwyddo i Pwyllgor y Neuadd. Cyfarfod nesaf 28/04/16

12.4 Cawsom drafodaeth ynglŷn â bwriad Gynghrair Grŵp Seiriol. MR wedi ysgrifennu at y prif weithredwr.

12.5 MR wedi ymuno a chwrs hyfforddiant Cynllunio Cymunedol, 3/03/16

12.6 Penderfynwyd peidio â phrynu medal goffaol pen-blwydd 90 oed y Frenhines.

12.7 Grant i fudiau gwirfoddoli ar agor gyda dyddiad cau 6/05/16

12.8 Clerc yn egluro gwaith awdit mewnol 2015/16, angen ei gwblhau erbyn 6/05/16. Awdit allanol i gwblhau erbyn 30/06/16.

12.9 Eglurodd y Clerc nad oedd ar gael ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd.

13. Dyddiad cyfarfod nesaf:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ei gyfraniad.

Daeth y cyfarfod i derfyn am 10.05 o'r gloch.

Penderfynwyd trefnu cyfarfod nesaf ar 20/04/16 am 7.30 yn Capel Peniel.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad